PROSIECT:

# CREU GARDD GOEDWIG A GOSOD PANELI SOLAR

YMGEISYDD: **GOLYGFA GWYDYR**

NIFER Y RHANDDEILIAID A FU'N YMWNEUD Â'R PROSIECT
**64**

LLEOLIAD
**LLANRWST, CONWY**

CYFANSWM GWERTH Y PROSIECT
**£21,963.00**

## Y GRONFA CYMUNEDAU GWYRDD

Bwriad y Gronfa Cymunedau Gwyrdd, a weinyddir gan asiantaeth datblygu gwledig Cadwyn Clwyd, yw cefnogi gwelliannau i weithgareddau awyr agored ar gyfer y gymuned, a'r adnoddau cysylltiedig.

Gan ddefnyddio'r grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant, rhoddwyd cymorth i 30 o ardaloedd yn siroedd Dinbych, Conwy, Y Fflint a Wrecsam i drawsnewid llecynnau awyr agored yn fannau lle bydd bywyd gwyllt yn ffynnu a chreu mannau dymunol i fyw, gweithio a chwarae ynddynt.

Mae rhai grwpiau wedi dewis gosod systemau ynni adnewyddadwy megis paneli solar i ostwng allyriadau carbon a helpu i leihau biliau tanwydd.



## Y PROSIECT

Mae Golygfa Gwydyr yn fenter gymdeithasol nid-er-elw sy'n cefnogi'r gymuned leol drwy gynnal gweithgareddau hybu iechyd meddyliol, iechyd corfforol a lles.

Pan gollwyd llawer o goed yn dilyn stormydd garw, paratowyd cynlluniau i droi llecyn perfformio o fewn y goedwig (o'r enw 'Caerdroia Labyrinth') yn ardd goedwig.

Ym misoedd oeraf y flwyddyn, mae adeilad y fenter gymdeithasol yn lle cynnes i gymuned yn sir Conwy ac felly penderfynwyd manteisio ar dechnoleg adnewyddadwy i leihau maint y biliau trydan.



## NODAU'R PROSIECT

Canolbwyntiodd y grŵp ar adfer y ddrysfa (labyrinth) a'i pherllan eirin duon hynafol, a thrwy hynny hyrwyddo manteision bod mewn cysylltiad agos â'r awyr agored.

Meddai Rosie Evans, swyddog datblygu cymunedol gyda Golygfa Gwydyr: "Pan fydd yr ardd goedwig wedi ymsefydlu'n llwyr, gobeithiwn fedru cynnig cynnyrch iachus am gost isel i'r rhai sydd ei angen fwyaf."

Prif nod y fenter yn y pen draw yw dod â'r gymuned at ei gilydd, boed hynny yn ei safleoedd coedwig neu yn ei chanolfan.

CYMUNEDAU GWYRDD
GREEN COMMUNITIES

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## GWEITHGAREDD

Dechreuodd y gwaith plannu yn yr ardd goedwig, gan ychwanegu rhagor o goed ffrwythau, llysiau a chnau – y cyfan yn gyfeillgar i wenyn a bywyd gwyllt.

Taenwyd tomwellt (mulch) er mwyn atal chwyn rhag tyfu ac ychwanegu maetholion at y pridd – rhan allweddol o'r gwaith uwchraddio.

I gefnogi'r gwaith gwella, prynwyd peiriant malu coed (chipper) gyda'r arian er mwyn defnyddio gwastraff coed o'r safle a reolir gan Golygfa Gwydyr trwy gytundeb rheolaeth gymunedol gydag Adnoddau Naturiol Cymru.

Adnoddau eraill a brynwyd yw pwmp i ddyfrhau'r ardd - yn cael ei redeg gan injan gludadwy dwystrôc - a thorrwr tyfiant garw i glirio mieri a changhennau bychain.

Meddai Rosie: "Rydym hefyd wedi gwella ein sgiliau trwy ddefnyddio peth o'r arian i yrru aelod o'r tîm i dderbyn hyfforddiant ar gyfer cymhwyster arweinydd iseldir llawr gwlad.

"Bydd hyn yn galluogi'r person hwnnw i arwain ymwelwyr ar deithiau drwy'r goedwig gan hyrwyddo rhagor o weithgaredd corfforol yn yr awyr agored."

Er mwyn cael cyngor arbenigol ar faint a lleoliad y paneli solar, gofynnodd Golygfa Gwydyr am gymorth y fenter gymdeithasol Datblygiadau Egni Gwledig (DEG), sy'n arbenigo mewn lleihau tlodi tanwydd ac annog mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy yng Ngogledd Orllewin Cymru.



"DAETH YR YNNI ADNEWYDDADWY YCHWANEGOL AR YR UNION ADEG YR OEDDEM EI ANGEN GAN FOD COSTAU CYNHESU YN CYNYDDU A'N TARIFF PRIS SEFYDLOG YN DOD I BEN. RŴAN GALLWN FFORDDIO CADW EIN ADEILAD YN GYNNES A CHROESAWGAR I BOBL LEOL SY'N MWYNHAU DOD AT EI GILYDD A CHYMRYD RHAN YN EIN GWEITHGAREDDAU."

*-ROSIE EVANS*

## CANLYNIADAU

Gosodwyd deg panel solar yn adeilad Golygfa Gwydyr a gobeithir y bydd hyn yn lleihau biliau trydan y grŵp £2,000 y flwyddyn.

Meddai Rosie: "Mae ein gardd goedwig wedi cael budd mawr o'r grant ac mae cefnogaeth Cadwyn Clwyd wedi ein helpu i gynyddu ein gallu i reoli'r goedwig mewn ffordd gynaliadwy a pharhau i'w defnyddio fel adnodd cymunedol."

Er i'r ddrysfa gael ei difrodi'n arw gan dywydd eithafol, roedd yn gyfle i'r fenter gymunedol wella'r gofod gwerthfawr hwn, cynyddu cyfraniad ei gwirfoddolwyr ac annog ffyniant byd natur.

*Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.*

CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL | Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council | CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL | wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam | Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales